EPA101

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Office of the Public Guardian

# Canllaw i Atwrneiaeth Barhaus

www.direct.gov.uk/mentalcapacity

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhan A | Cyflwyniad | 7 |
| | Y llyfryn hwn | 7 |
| | Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus | 8 |
| Rhan B | Atwrneiaeth Barhaus | 9 |
| | Beth yw Atwrneiaeth Barhaus? | 9 |
| | A ellir llunio Atwrneiaeth Barhaus newydd? | 9 |
| Rhan C | Cofrestru Atwrneiaeth Barhaus | 10 |
| | Pryd dylid cofrestru Atwrneiaeth Barhaus a gan bwy? | 10 |
| | Beth os bydd Atwrneiod yn cael eu penodi 'ar y cyd ac yn unigol'? | 10 |
| | Beth os bydd Atwrneiod wedi'u penodi i weithredu 'ar y cyd'? | 10 |
| | Cofrestru Cam 1: Hysbysu'r bobl berthnasol | 11 |
| | Beth os na ellir cael hyd i berthynas? | 13 |
| | Beth os bydd llai na thri pherthynas yn fyw? | 13 |
| | Beth os bydd dweud wrth bobl yn achos pryder i'r Rhoddwr? | 13 |
| | Beth os bydd rhywun yn gwrthwynebu i'r cofrestru? | 14 |
| | Cofrestru Cam 2: Cyflwyno'r cais | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| Rhan C | Cofrestru Atwrneiaeth Barhaus (parhad) | |
| | Beth os bydd yr Atwrneiaeth Barhaus wreiddiol wedi'i cholli? | 15 |
| | A oes yn rhaid cael tystiolaeth feddygol o ddiffyg gallu? | 16 |
| | Beth os na fydd y Rhoddwr yn gallu fforddio ffi'r cais? | 16 |
| | Pa mor hir mae'n cymryd i gofrestru? | 16 |
| | Beth os gwrthodir y cofrestr? | 17 |
| Rhan D | Ar ôl cofrestru'r Atwrneiaeth Barhaus | 18 |
| | Sut mae cofrestru'n newid statws Atwrneiaeth Barhaus? | 18 |
| | A all y Rhoddwr ddal i ofalu am ei faterion ei hun? | 18 |
| | A all y Rhoddwr wneud ewyllys? | 19 |
| | A all y Rhoddwr ganslo ei Atwrneiaeth/Hatwrneiaeth Barhaus? | 19 |
| | A all Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus neu'r Llys Gwarchod benodi mwy o Atwrneiod? | 20 |
| | Beth sy'n digwydd os bydd y Rhoddwr yn marw? | 20 |

| | | |
|---|---|---|
| Rhan E | Rôl yr Atwrnai | 21 |
| | Beth yw pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau Atwrneiod? | 21 |
| | Beth ddylai Atwrnai ei wneud gyda'r ddogfen EPA? | 21 |
| | A ddylai Atwrneiod gadw cyfrif o'u trafodion? | 21 |
| | A all yr Atwrnai werthu eiddo'r Rhoddwr? | 22 |
| | A all yr Atwrnai wneud rhoddion o eiddo'r Rhoddwr? | 23 |
| | A all yr Atwrnai benderfynu lle dylai'r Rhoddwr fyw? | 23 |
| | Ydy Atwrneiod yn cael cydnabyddiaeth am amser a threuliau? | 24 |
| | A all Atwrneiod ymddeol o'u dyletswyddau? | 24 |
| | Sut mae'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gweithio gyda Thwrneiod? | 25 |
| Rhan F | Cysylltwch â ni | 26 |
| Rhan G | Cysylltiadau defnyddiol | 28 |
| Rhan H | Geirfa | 35 |

# Rhan A: Cyflwyniad

**Y llyfryn hwn**

Lluniwyd y llyfryn hwn i gynorthwyo'r rhai sydd naill ai wedi llunio Atwrneiaeth Barhaus (EPA) neu sy'n gweithredu fel Atwrnai yn unol ag EPA.

Mae'n egluro pwrpas EPA, pwy sy'n ymwneud â llunio EPA a'r hyn sy'n rhaid ei wneud i gofrestru EPA.

Mae hefyd yn gosod rolau'r Atwrnai, y Rhoddwr a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (yr 'OPG').

Mae'r eirfa yn Rhan H yn egluro'r geiriau a'r ymadroddion allweddol a ddefnyddir drwy'r llyfryn hwn ac mae Rhan F yn amlinellu manylion ein cysylltau.

Mae'r holl gyhoeddiadau a nodwyd uchod ar gael i'w lawr lwytho o'n gwefan

Mae'r llyfryn hwn ar gael hefyd mewn fformat 'hawdd ei ddarllen'.

## Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Mae'r OPG (dan arweiniad y Gwarcheidwad Cyhoeddus) yn asiantaeth o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac yn gyfrifol yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol am:

- arolygu Dirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod (y 'Llys');
- gadw cofrestri Dirprwyon, EPAs ac Atwrneiaeth Arhosol (LPAs); ac am
- ymchwilio i gwynion am Ddirprwyon neu Atwrneiod sy'n gweithredu yn unol ag EPA neu LPA cofrestredig.

Gall yr OPG ddarparu cyngor cyffredinol am EPAs ac LPAs a'r egwyddorion a'r gweithdrefnau sy'n gymwys. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu cyngor cyfreithiol. Argymhellwn eich bod yn cysylltu â chyfreithiwr neu gynghorydd proffesiynol arall i gael cyngor.

# Rhan B: Atwrneiaeth Barhaus

## Beth yw Atwrneiaeth Barhaus?

Dogfen yw Atwrneiaeth Barhaus sy'n penodi unigolyn ( 'Atwrnai') i drefnu eiddo a materion ariannol unigolyn arall (y 'Rhoddwr').

Os bydd y Rhoddwr yn datblygu analluedd i wneud penderfyniadau ariannol, rhaid i'r EPA gael ei chofrestru cyn y gellir ei defnyddio neu, os ydy'n cael ei defnyddio'n barod, cyn y gall barhau i gael ei defnyddio.

## A ellir llunio Atwrneiaeth Barhaus newydd?

Ni ellir llunio EPAs newydd bellach. Fodd bynnag, os bydd unigolyn wedi llunio EPA cyn Hydref 2007, naill ai'n gofrestredig neu'n anghofrestredig, gellir parhau i'w defnyddio.

Mae LPAs yn awr wedi cymryd lle EPAs, oedd yn caniatáu i bobl benodi Atwrneiod i wneud penderfyniadau am eiddo a materion ariannol ar eu rhan yn unig. Mae'r LPAs newydd yn rhoi mwy o amddiffyniad ac opsiynau ychwanegol.

Os bydd rhywun wedi llunio EPA yn barod a'i fod/bod yn dal yn gallu, gall naill ai ei amnewid gydag LPA Eiddo a Materion newydd neu gall gadw'r EPA bresennol. Gall hefyd wneud LPA ychwanegol ar gyfer penderfyniadau lles personol. Gall yr OPG roi gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael.

Mae'r OPG wedi paratoi nifer o lyfrynnau sy'n egluro'r LPAs yn fanwl. Maen nhw ar gael i'w lawr lwytho o'n gwefan neu gallwch ein ffonio i gael copi caled neu gopi o'n CD-Rom.

# Rhan C: Cofrestru Atwrneiaeth Barhaus

**Pryd dylai Atwrneiaeth Barhaus gael ei chofrestru a gan bwy?**

Yr Atwrnai yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am gofrestru'r EPA. Mae hyn oherwydd mai dim ond pan fydd yr Atwrnai'n credu bod y Rhoddwr yn mynd neu wedi datblygu analluedd meddyliol i ddelio â'i faterion/materion ei hun, mae EPA yn cael ei chofrestru.

**Beth os bydd Atwrneiod yn cael eu penodi i weithredu 'ar y cyd ac yn unigol'?**

Gall Atwrneiod a benodir ar y cyd ac yn unigol weithredu a gwneud penderfyniadau'n annibynnol o unrhyw Atwrnai arall, ynghyd â gyda nhw. Felly, gallai unrhyw Atwrnai wneud cais i gofrestru'r EPA ar ei ben/phen ei hun. Yn y sefyllfa hon, byddai'r OPG yn derbyn y cais dim ond os bydd yr holl Atwrneiod eraill wedi'u hysbysu o'r cais ac wedi cael cyfle i wrthwynebu iddo. Bydd y cofrestriad mewn grym pan fydd y Atwrneiod i gyd yn ei dderbyn.



Pan fydd yr Atwrneiod wedi gweithredu gyda'i gilydd i benderfynu cofrestru'r EPA, dylid rhestru eu holl enwau ar y ffurflen **EP1PG: Rhybudd o fwriad i wneud cais am gofrestru Atwrneiaeth Barhaus**, gweler **Cofrestru cam 1** ar dudalen 11. Bydd hyn yn sicrhau y gall yr holl Atwrneiod a enwyd weithredu ar ran y Rhoddwr ar ôl cofrestru'r EPA.

**Beth os bydd Atwrneiod wedi'u penodi i weithredu 'ar y cyd'?**

Rhaid i Atwrneiod a benodir 'ar y cyd' weithredu gyda'i gilydd bob amser sy'n golygu bod yn rhaid iddyn nhw bob amser gytuno cyn gwneud unrhyw beth ar ran y Rhoddwr. Os na fydd un Atwrnai'n cytuno â gweithred arfaethedig, yna ni ellir cyflawni'r weithred honno.

Os bydd yr Atwrneiod wedi'u penodi fel hyn, yna bydd yn rhaid i'r holl Atwrneiod wneud cais i gofrestru'r EPA gyda'i gilydd. Os na fydd hyn yn bosibl, yna ni ellir cofrestru'r EPA.

## Cofrestru cam 1: Hysbysu'r bobl berthnasol

Rhaid hysbysu'r Rhoddwr ac **o leiaf dri** o'r perthnasau o'r bwriad i gofrestru'r EPA.

Hefyd, rhaid hysbysu unrhyw Atwrnai arall a benodwyd 'ar y cyd ac yn unigol' ond nad sydd wedi cyfranogi yn y cais.

Rhaid i bob unigolyn gael ffurflen **EP1PG**. Mae cyfarwyddiadau ar sut i'w chwblhau ar y ffurflen ei hun.



Y canlynol yw categorïau'r perthnasau y mae'n rhaid eu hysbysu, yn nhrefn blaenoriaeth

1. Gŵr, gwraig neu gymar sifil y Rhoddwr;
2. Plant y Rhoddwr (gan gynnwys plant mabwysiedig ond nid llysblant);
3. Rhieni'r Rhoddwr;
4. Brawd a chwaer y Rhoddwr (gan gynnwys hanner brodyr a chwiorydd);
5. Gŵr neu wraig gweddw neu gymar sifil sydd wedi goroesi plentyn y Rhoddwr;
6. Wyrion neu wyresau'r Rhoddwr;

7. Neiaint a nithoedd y Rhoddwr (plant brodyr a chwiorydd llawn y Rhoddwr);
8. Neiaint a nithoedd y Rhoddwr (plant hanner brodyr a chwiorydd y Rhoddwr);
9. Modrybedd ac ewythrod y Rhoddwr (sy'n frodyr neu chwiorydd llawn rhiant y Rhoddwr); a
10. Chefndryd a chyfnitherod y Rhoddwr (plant modrybedd ac ewythrod y Rhoddwr sy'n frodyr a chwiorydd llawn rhiant y Rhoddwr).

Os hysbysir unigolyn mewn categori arbennig am y cais, yna rhaid hysbysu pob unigolyn yn y categori hwnnw.
Er enghraifft, os na fydd gan Roddwr ŵr, gwraig neu gymar sifil ond bod ganddo 10 plentyn, yna rhaid hysbysu'r 10 plentyn (nid dim ond tri ohonyn nhw).



Os bydd perthynas o dan 18 oed neu ag analluedd meddyliol i ddeall y rhybudd, **ni ellir** ei gyfrif/chyfrif fel un o'r tri pherthynas sy'n rhaid eu hysbysu.

Os bydd Atwrnai hefyd yn berthynas, ni ellir cyfrif hwnnw/honno fel un o'r tri pherthynas sy'n rhaid eu hysbysu. Er enghraifft, os yw'r Atwrnai yn fab i'r Rhoddwr sydd heb ŵr, wraig neu bartner sifil sy'n fyw ond mae ganddo/ganddi 3 o blant, dim ond y ddau blentyn arall sudd angen eu hysbysu.

Fodd bynnag, os nad oes gan y Rhoddwr ŵr, wraig, bartner sifil, rhieni sy'n fyw, ond mae ganddo/ganddi ddau o blant sy'n atwrneiod, ac mae ganddynt bum brawd hefyd, mae angen i'r atwrneiod hysbysu'r brodyr i gyd.

Os yw'r enghraifft ddiwethaf yn cael ei newid fel bo gan y Rhoddwr dri o blant sy'n atwrneiod i gyd, nid oes rhaid i'r atwrneiod hysbysu unrhyw un. Ond, mewn achosion lle nad oes neb wedi cael eu hysbysu, ni ellir cofrestru'r EPA tan fydd OPG wedi gwneud ymholiadau priodol.

### Beth os na ellir cael hyd i berthynas?

Rhaid gwneud pob ymdrech rhesymol i gael hyd i berthnasau y dylid eu hysbysu, mewn trefn blaenoriaeth. Os na fydd hyn yn bosibl, yna dylid hysbysu'r perthynas mwyaf priodol nesaf i sicrhau'r gofyn bod o leiaf tri pherthynas yn cael eu hysbysu.



### Beth os bydd llai na thri pherthynas yn fyw?

Os bydd hyn yn wir, dylid egluro hyn ar y ffurflen gais.

### Beth os bydd dweud wrth bobl yn achos pryder i'r Rhoddwr?

Os bydd yr ymgeisydd yn credu'n rhesymol y byddai rhoi rhybudd i'r Rhoddwr neu i'r perthnasau'n achos pryder arbennig neu'n annymunol, gellir gwneud cais i'r Llys ddileu'r rhybudd. Bydd angen tystiolaeth i gefnogi hyn.

Mae'r llyfryn **COP42: Gwneud cais i'r Llys Gwarchod** yn egluro'r broses o wneud cais i'r Llys.

## Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn gwrthwynebu i'r cofrestr?

Mae hawl gan unrhyw un sy'n derbyn y ffurflen **EP1PG** wrthwynebu'r cais i gofrestru. Os bydd gwrthwynebiadau, yna mae'n bosibl na ellir cofrestru'r EPA hyd nes bydd yr holl faterion wedi'u datrys.

Dim ond gwrthwynebiadau a dderbynnir o fewn yr amserlen a nodir yn y ffurflen EPIPG ac ar y telerau canlynol sy'n ddilys:

- nad oedd y ddogfen a luniwyd yn EPA ddilys, er enghraifft, nad oedd wedi'i harwyddo a'i hardystio'n gywir neu nad oedd gan y Rhoddwr allu pan luniwyd hi;
- nad yw'r EPA bellach yn bodoli, er enghraifft ei bod wedi'i chanslo'n flaenorol;
- mae'r cais yn gynamserol oherwydd nad yw'r Rhoddwr eto ag analluedd meddyliol;
- bod twyll neu bwysedd anghyffredin wedi'i ddefnyddio i geisio cael y Rhoddwr i lunio'r EPA; neu
- o dan yr amgylchiadau bod yr Atwrnai'n anaddas i weithredu ar ran y Rhoddwr.



Os derbynnir gwrthwynebiad dilys, hysbysir yr ymgeisydd bod y cais wedi'i ohirio a'r camau y dylai eu cymryd nesaf. Y Llys yn unig a all benderfynu a ddylid cynnal neu wrthod y gwrthwynebiad.

Fel arfer, gall yr Atwrnai barhau i ofalu am faterion y Rhoddwr ac atal colled i'w ystâd, ond dylai weithredu'n ofalus. Dylai Atwrneiod ofyn am gyngor os na fyddan nhw'n sicr pa gamau y dylen nhw barhau i'w cymryd ar ran y Rhoddwr.

## Cofrestru cam 2: Cyflwyno'r cais

Mae canllaw gyda'r ffurflen gais **EP2PG: Cais i gofrestru Atwrneiaeth Barhaus** ynglŷn â sut i'w chwblhau. Gellir lawr lwytho'r ffurflen a'r canllaw o'n gwefan neu ein ffonio i gael copi caled. Gellir cael y ffurflen hefyd o siopau sy'n gwerthu ffurflenni cyfreithiol neu gan gyfreithwyr neu gynghorwyr proffesiynol eraill.

Rhaid i'r holl wybodaeth ar y ffurflen gais fod yn wir ac yn gywir. Mae'n drosedd yn ôl y Ddeddf Galluedd Meddyliol i wneud datganiadau ffug ar gais. Gall y gosb gynnwys cyfnod o hyd at ddwy flynedd mewn carchar a dirwy o hyd at £5,000.

Dylid cyflwyno'r cais i gofrestru i'r OPG cynted ag y bydd yr hysbysiadau perthnasol wedi'u gwneud a dylai gynnwys:

- y ffurflen **EP2PG wedi'i chwblhau**;
- yr EPA wreiddiol; a
- ffi'r cais i gofrestru (sieciau'n daladwy i'r OPG). Gweler canllaw OPG ar ffioedd, esemptiad rhag talu ffioedd a dileu ffioedd am ragor o wybodaeth.

### Beth os bydd yr Atwrneiaeth Barhaus wreiddiol wedi'i cholli?

Os bydd yr EPA wreiddiol wedi'i cholli gellir cofrestru copi ardystiedig. Bydd ffotocopi heb ei ardystio yn cael ei chofrestru ar orchymyn y Llys yn unig.

### A oes yn rhaid cael tystiolaeth feddygol o ddiffyg gallu?

Nac oes, nid yw'r OPG angen tystiolaeth ffurfiol o ddiffyg gallu unigolyn er mwyn cofrestru'r EPA.

### Beth os na fydd y Rhoddwr yn gallu fforddio ffi'r cais?

Os na fydd y Rhoddwr yn gallu fforddio'r ffi, mae'n bosibl y bydd yn gymwys am esemptiad rhag talu ffi neu ddileu'r ffi. Gweler canllaw OPG ar ffioedd, esemptiad rhag talu ffioedd a dileu ffioedd am ragor o wybodaeth.



### Pa mor hir mae'n cymryd i gofrestru?

Bydd yr OPG yn gwirio bod y cais yn gyflawn ac os bydd unrhyw broblem, bydd yn cysylltu â'r ymgeisydd neu â'i gyfreithiwr os bydd hynny'n berthnasol.

Os bydd unrhyw wrthwynebiadau neu ymholiadau yna rhaid datrys popeth cyn gellir cofrestru'r EPA.

Os bydd y cais yn gyflawn ac nad oes unrhyw wrthwynebiad neu ymholiad, rydym yn ceisio cofrestru'r EPA 35 niwrnod o'r dyddiad olaf yr anfonwyd y rhybudd **EP1PG** olaf.

Byddwn yn dychwelyd yr EPA gofrestredig o fewn pum niwrnod i ddyddiad y cofrestru.

## Beth os gwrthodir y cofrestr?

Os bydd y Rhoddwr wedi colli'r gallu i ofalu am ei faterion/materion ariannol ond bod y cais i gofrestru ei EPA wedi'i wrthod, yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid gwneud cais i'r Llys Gwarchod benodi Dirprwy i wneud penderfyniadau ariannol ar ei ran/rhan

Mae'r llyfryn **COP42: Gwneud Cais i'r Llys Gwarchod** yn rhoi mwy o wybodaeth. Gellir ei lawr lwytho o http://hmctsformfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do

# Rhan D: Ar ôl cofrestru'r Atwrneiaeth Barhaus

**Sut mae cofrestru'n newid statws Atwrneiaeth Barhaus?**

Rhaid cofrestru'r EPA pan fydd y Rhoddwr ag analluedd meddyliol, neu'n mynd felly. Nid yw cofrestru'n newid y pwerau a roddwyd i Atwrneiod yn unol â'r EPA, ond mae'n creu tri newid pwysig:

- rhaid i'r Atwrnai (Atwrneiod) yn awr fod yn atebol i'r OPG neu i'r Llys os bydd unrhyw un yn amau eu gweithredoedd; ac
- ni all y Rhoddwr derfynu'r EPA heb gadarnhad gan y Llys; ac
- ni all yr Atwrnai (Atwrneiod) ymwadu (ymddeol) heblaw eu bod yn rhoi rhybudd i'r OPG.



**A all y Rhoddwr ddal i ofalu am ei faterion ei hun?**

Mae cofrestru'r EPA yn golygu bod yr Atwrnai'n cymryd cyfrifoldeb llawn oddi wrth y Rhoddwr ar gyfer gofalu am ei eiddo/heiddo a'i faterion/materion. Mae hyn yn golygu y bydd y Rhoddwr yn cael ei ystyried fel un nad sy'n gallu gofalu am ei faterion ei hun. Os bydd y Rhoddwr yn teimlo ei fod/bod yn gallu cymryd rhan mewn gofalu am rai agweddau, yna'r Atwrnai ac ef/a hi ei hun fydd yn penderfynu sut dylai hyn weithio.

## A all y Rhoddwr wneud ewyllys?

Gall, gall Rhoddwr wneud ewyllys neu godisil (gwelliant i ewyllys) yn yr un modd ag y gall unrhyw un. Fodd bynnag, os bydd yr ewyllys yn cael ei gwneud ar ôl cofrestru'r EPA, gall annog eraill i'w herio ar ôl marwolaeth y Rhoddwr ar y sail ei bod yn bosibl nad oedd gan y Rhoddwr y gallu ewyllysiol (gweler yr eirfa yn Rhan G) i'w gwneud.

Gall fod yn gymhleth i ddatrys y cwestiwn o allu ar ôl i'r Rhoddwr farw ac felly, byddai'n ddoeth gofyn am gyngor cyfreithiol a meddygol os bydd y Rhoddwr yn dymuno gwneud neu ei fod/bod yn gwneud ewyllys newydd ar ôl cofrestru'r EPA. Os byddwch chi'n bryderus am ewyllys a wnaed cyn cofrestru, gallwch chi hefyd wneud cais i'r Llys i gael gwneud ewyllys statudol



## A all y Rhoddwr ganslo ei Atwrneiaeth/Hatwrneiaeth Barhaus?

Os oes gan y Rhoddwr y gallu meddyliol i wneud hynny, gall ganslo ei EPA ar unrhyw adeg os na fydd wedi'i chofrestru. Os bydd yr EPA wedi'i chofrestru, ni ellir ei dirymu heblaw bod y Llys yn cadarnhau'r dirymiad.

I ddiddymu EPA mae'r Rhoddwr yn arwyddo dogfen ffurfiol o'r enw 'Gweithred o Ddiddymu'. Mae'n bosibl y bydd y Rhoddwr yn dymuno cael cyngor cyfreithiol i gael cymorth i wneud hyn.

Os bydd y Rhoddwr yn canslo ei EPA mae'n bosibl y bydd yn dymuno ystyried llunio LPA.

## A all Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus neu'r Llys Gwarchod benodi mwy o Atwrneiod?

Nid oes gan y Llys na'r OPG y pŵer i benodi mwy o Atwrneiod nac i drosglwyddo'r pŵer i berson arall.

## Beth sy'n digwydd os bydd y Rhoddwr yn marw?

Os bydd y Rhoddwr yn marw, bydd yr EPA yn dod i ben yn awtomatig. Dylai'r Atwrnai anfon yr EPA wreiddiol a'r dystysgrif marwolaeth i'r OPG cyn gynted ag sy'n bosibl. Ni all yr OPG roi cyngor am sut i ddelio ag ystâd y Rhoddwr; mae hwn yn fater i gyfreithiwr, y Gofrestrfa Brofiant Ardal neu gynghorydd proffesiynol arall

# Rhan E: Rôl yr Atwrnai

## Beth yw pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau Atwrneiod?

Bydd pwerau'r Atwrneiod wedi'u hamlinellu yn yr EPA. Mae eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n cynnwys:

- gweithredu bob amser er lles pennaf y Rhoddwr ac ystyried ei anghenion/hanghenion a'i ddymuniadau/dymuniadau hyd y mae'n bosibl;
- peidio â chymryd mantais o sefyllfa'r Rhoddwr i gael budd iddo'i hun; a;
- chadw arian ac eiddo'r Rhoddwr ar wahân i'w eiddo/heiddo ei hun a phobl eraill; ac
- ystyried y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Cod Ymarfer cefnogol wrth weithredu ar ran y Rhoddwr.



## Beth ddylai Atwrnai ei wneud gyda'r ddogfen EPA?

Mae'n bosibl y bydd yr Atwrnai'n dymuno darparu copi o'r EPA i bobl a sefydliadau perthnasol i brofi bod ganddo/ganddi awdurdod i wneud rhai penderfyniadau ar ran unigolyn sydd heb y gallu.

## A ddylai Atwrneiod gadw cyfrif o'u trafodion?

Dylen, mae'n ddyletswydd ar Atwrneiod i gadw cyfrifon cywir o'u trafodion ar ran y Rhoddwr. Dylai bod ganddyn nhw restr o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu'r Rhoddwr a buddsoddiadau eraill ynghyd â chofnodion cywir o holl incwm a gwariant y Rhoddwr. Mae hyn yn cynnwys derbynebau, cyfriflenni banc ayyb. Dylai arian ac asedau'r Rhoddwr aros yn enw'r Rhoddwr.

Gall y Llys orchymyn bod Atwrneiod yn cyflwyno cyfrifon ar unrhyw adeg. Os na chyflwynir cyfrifon boddhaol, yna gellir canslo'r EPA.

Ar ôl marwolaeth y Rhoddwr, mae'n bosibl y bydd angen i'r Atwrnai roi cyfrif i'r cynrychiolwyr personol o ystâd y Rhoddwr am y trafodion.

### A all yr Atwrnai werthu eiddo'r Rhoddwr?

Rhaid i holl weithrediadau a wneir ar ran y Rhoddwr fod er lles pennaf y Rhoddwr. Os bydd yr Atwrnai'n credu bod gwerthu'r eiddo er lles pennaf y Rhoddwr **ac** mai'r Rhoddwr yw unig berchennog yr eiddo **a** bod yr EPA yn caniatau hynny, yna gall yr Atwrnai benderfynu gwerthu'r eiddo.



Nid yw Atwrneiod angen cymeradwyaeth oddi wrth y Llys na'r OPG i werthu eiddo'r Rhoddwr. Fodd bynnag, rhaid iddyn nhw wneud cais i'r Llys i gael caniatâd os am unrhyw reswm bod y gwerthiant o dan werth y farchnad, bod yr Atwrnai eisiau prynu'r eiddo neu bod yr Atwrnai eisiau rhoi'r eiddo i rywun arall.

Os na fydd yr Atwrnai'n gofyn am gymeradwyaeth y Llys yn yr amgylchiadau hyn, yna mae'n bosibl y bydd y gwerthiant yn cael ei herio.

Os oes gan y Rhoddwr LPA Iechyd a Lles Cofrestredig, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Atwrnai drafod materion am werthiant eiddo'r Rhoddwr gydag unrhyw Atwrnai (Atwrneiod) a benodwyd i wneud penderfyniadau am ble mae'r Rhoddwr yn byw.

### A all yr Atwrnai wneud rhoddion o eiddo'r Rhoddwr?

Mae gan yr Atwrnai bwerau cyfyngedig i wneud rhoddion iddo'i hun ac eraill o eiddo'r Rhoddwr. Gellir gwneud rhoddion tymhorol, er enghraifft adeg y Nadolig neu i nodi gwyliau crefyddol eraill neu ar achlysuron fel pen blwyddi, genedigaethau neu briodas/bartneriaeth sifil i bobl sy'n perthyn i neu'n gysylltiedig â'r Rhoddwr.

Gall Atwrneiod hefyd roi i unrhyw elusen y mae'r Rhoddwr yn ei chefnogi neu y byddai disgwyl y byddai wedi'i chefnogi. Rhaid i werth unrhyw rodd fod yn rhesymol ac yn gyfatebol o safbwynt gwerth ystâd y Rhoddwr.



Os bydd rhoddion mwy o arian neu eiddo i'w gwneud, er enghraifft fel rhan o gynllunio ar gyfer treth etifeddiant, rhaid i'r Atwrnai wneud cais i'r Llys.

Os bydd rhodd sy'n fwy na'r terfynau a osodwyd, yn cael ei gwneud heb ganiatâd y Llys, mae'n bosibl y bydd yn rhaid ei thalu'n ôl.

### A all yr Atwrnai benderfynu lle dylai'r Rhoddwr fyw?

Nid yw'r EPA yn rhoi hawl cyfreithiol i'r Atwrnai benderfynu lle dylai'r Rhoddwr fyw.

## Ydy Atwrneiod yn cael cydnabyddiaeth am amser a threuliau?

Mae'n bosibl y bydd Atwrneiod proffesiynol fel cyfreithwyr neu gyfrifwyr yn codi tâl am eu gwasanaethau os bydd yr EPA yn caniatau hyn. Nid yw Atwrneiod fel arfer yn cael eu talu am eu gwaith ond gallan nhw gael tâl am dreuliau rhesymol fel postio, papur a chostau galwadau ffôn, o ystâd y Rhoddwr.

Bydd yr hyn a ystyrir yn dreuliau rhesymol yn amrywio yn ôl amgylchiadau bob achos. Mae'n dibynnu ar yr hyn y mae disgwyl i'r Atwrnai ei wneud a hefyd ar werth ystâd yr unigolyn sydd heb y gallu.



Gall yr OPG edrych i mewn i unrhyw gŵyn bod Atwrneiod yn hawlio treuliau gormodol. Os ystyrir bod y costau'n afresymol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu had-dalu ac mewn achosion anghyffredin, gellir gwneud cais i'r Llys ganslo penodiad yr Atwrnai.

Cysylltwch â'r OPG neu â gweithiwr proffesiynol cyfreithiol i gael cyngor am dreuliau.

## A all Atwrneiod ymddeol o'u dyletswyddau?

Gallan, gall Atwrneiod beidio â gweithredu yn y rôl hon ar unrhyw adeg fyddan nhw'n dymuno. Gelwir hyn yn 'ymwadu'r pŵer' a gwneir hyn drwy arwyddo Gweithred Ymwadu er nad yw gweithred ffurfiol yn ofyn cyfreithiol. Os na fydd yr EPA wedi'i chofrestru, dylid hysbysu'r Rhoddwr o'r ymddeoliad. Os yw'r EPA wedi'i chofrestru, mae'n rhaid hysbysu'r OPG.

Os mai'r Atwrnai sy'n ymddeol yw'r unig Atwrnai EPA cofrestredig neu anghofrestredig a'i fod/bod yn credo bod angen i'r Rhoddwr gael Dirprwy wedi'i benodi iddo/iddi, dylai geisio cael hyd i rywun addas i wneud cais i'r Llys i wneud penderfyniadau ar ran y Rhoddwr.

Os bydd yr Atwrnai wedi'i benodi **ar y cyd** gyda Thwrnai arall (h.y. mae'n rhaid iddyn nhw bob amser gydweithio) a bod un yn ymddeol o'r rôl, yna ni ellir defnyddio'r EPA bellach.

Os bydd yr Atwrneiod wedi'u penodi ar y cyd ac yn unigol (h.y. gallan nhw weithredu'n annibynnol o'i gilydd **neu** gyda'i gilydd) a bod un ohonyn nhw'n dymuno ymddeol, gall yr Atwrnai/Atwrneiod sy'n weddill barhau i weithredu yn unol â'r EPA.



## Sut mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gweithio gyda Thwrneiod?

Nid yw'r OPG yn arolygu Atwrneiod nac yn dweud wrthyn nhw sut i ddelio â materion y Rhoddwr. Fodd bynnag, bydd yr OPG yn ystyried cwynion am Atwrneiod pan fydd angen.

Os bydd Atwrneiod angen cyngor ar faterion ymarferol, ariannol neu gyfreithiol, dylen nhw ofyn am gymorth oddi wrth gyfreithwyr neu eraill o statws proffesiynol. Gall yr OPG ddarparu canllaw cyffredinol ar ein prosesau ond ni allan nhw gynnig cyngor na gwasanaethau cyfreithiol.

# Rhan F: Cysylltwch â ni

**Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**
**Office of the Public Guardian**

PO Box 16185
Birmingham
B2 2WH

**DX:** 744240 Birmingham 79

**Rhif ffôn:** 0300 456 0300

**Rhif ffacs:** 0870 739 8780

**E-bost:** customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk



**Gwefan:** www.direct.gov.uk/mentalcapacity

**Testun:** 0115 934 2778 (Os oes gennych nam ar eich lleferydd neu nam ar eich clyw a bod gennych ffôn testun, gallwch ffonio'r OPG i gael cymorth)

**Galwadau Rhyngwladol** +44 300 456 0300

**Y Llys Gwarchod**
**Court of Protection**

Archway Tower
2 Junction Road
Llundain
N19 5SZ

**DX:** 141150 Archway 2

**Rhif ffôn:** 0300 456 4600

**E-bost:** courtofprotectionenquiries@hmcourts-service.gsi.gov.uk

**Gwefan:** www.hmcourts-service.gov.uk

## Ymwadiad

Gall staff yr OPG a'r Llys roi cyngor am brosesau OPG a'r Llys yn unig ac ni allan nhw roi cyngor na gwasanaethau cyfreithiol. Rydym yn argymell eich bod yn gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol pan fydd hynny'n briodol. Credir bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg argraffu. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriad sydd ynddo.

# Rhan G: Cysylltiadau defnyddiol

| Sefydliad a'r hyn yw/mae'n ei wneud | Gwybodaeth i gysylltu |
|---|---|
| Action for Advocacy<br><br>Asiantaeth adnoddau a chymorth ar gyfer y sector eiriolaeth | PO Box 31856, Lorrimore Square, Llundain, SE17 3XR<br><br>www.actionforadvocacy.org.uk |
| Age UK<br><br>Sefydliad mwyaf y DU sy'n gweithio i hybu lles yr holl bobl hŷn. Mae'n cynnig gwasanaethau hanfodol, gwybodaeth a chymorth i filoedd o bobl hŷn. | Astral House, 1268 London Road, Llundain, SW16 4ER<br><br>www.ageuk.org.uk<br><br>www.accymru.org.uk<br><br>Llinell wybodaeth 0800 00 99 66 |
| Cymdeithas Alzheimer's<br><br>Elusen gofal a gwaith ymchwil y DU ar gyfer pobl sy'n dioddef gan ddementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr | Gordon House, 10 Greencoat Place, Llundain, SW1P 1PH<br><br>www.alzheimers.org.uk<br><br>Llinell gymorth 0845 300 0336 |

| Sefydliad a'r hyn yw/mae'n ei wneud | Gwybodaeth i gysylltu |
|---|---|
| Carers UK<br><br>Mae'n gofalu am deuluoedd, cymheiriaid neu ffrindiau sydd angen help oherwydd eu bod yn sâl, yn fregus neu bod ganddynt anabledd. Ei nod yw helpu gofalwyr drwy ddarparu gofal di-dâl i aelodau neu ffrindiau teuluoedd sâl, bregus neu anabl | 20/25 Glasshouse Yard, Llundain, EC1A 4JT<br><br>www.carersuk.org<br><br>Ffôn 020 7566 7637<br><br>Ffacs 020 7490 8824 |
| Cymdeithas Syndrom Down<br><br>Mae'n darparu gwybodaeth a chymorth i bobl sy'n dioddef gan Syndrom Down, eu teuluoedd a'u gofalwyr | Langdon Down Centre, 2a Langdon Park, Teddington, Middlesex, TW11 9PS<br><br>www.downs-syndrome.org.uk<br><br>Ffôn 0845 230 0372<br><br>Ffacs 0845 230 0373 |
| Sefydliad ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu<br><br>Mae'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'r rhai sy'n eu cefnogi i wella ansawdd eu bywydau a hybu hawliau, ansawdd bywyd a chyfleoedd pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd | Sea Containers House, 20 Upper Ground, Llundain, SE1 9QB<br><br>www.learningdisabilities.org.uk<br><br>Ffôn 020 7803 1100 |

| Y Sefydliad a'r hyn yw/mae'n ei wneud | Gwybodaeth i gysylltu |
|---|---|
| Headway – cymdeithas anaf i'r ymennydd<br><br>Mae'n hybu dealltwriaeth o bob agwedd o anaf i'r ymennydd; ac mae'n darparu gwybodaeth, cymorth a gwasanaethau i bobl sydd ag anaf i'r ymennydd, eu teuluoedd a'u gofalwyr | 4 King Edward Court Service,<br>King Edward Street,<br>Nottingham, NG1 1EW<br><br>www.headway.org.uk<br><br>Llinell gymorth 0808 800 2244 |
| MENCAP<br><br>Elusen sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr | 123 Golden Lane, Llundain, EC1Y ORT<br><br>www.mencap.org.uk<br><br>Ffôn 020 7454 0454 |
| Sefydliad Iechyd Meddwl<br><br>Elusen flaengar yn y DU sy'n darparu gwybodaeth, yn gwneud gwaith ymchwil, yn ymgyrchu ac yn gweithio i wella gwasanaethau i unrhyw un sy'n cael ei effeithio/ heffeithio gan broblemau iechyd meddwl, beth bynnag ei oed/hoed a ble bynnag mae'n byw | Sea Containers House,<br>20 Upper Ground, Llundain,<br>SE1 9QB<br><br>www.mentalhealth.org.uk<br><br>Ffôn 020 7803 1100 |

| Sefydliad a'r hyn yw/mae'n ei wneud | Gwybodaeth i gysylltu |
|---|---|
| MIND<br><br>Elusen iechyd meddwl flaengar sy'n gweithio i greu gwell bywyd i bawb sydd wedi cael profiad o drallod meddwl | 15-19 Broadway, Stratford, Llundain, E15 4BQ<br><br>www.mind.org.uk<br><br>Llinell wybodaeth 0845 766 0163 |
| Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS)<br><br>Mae'n hyrwyddo hawliau a lles pawb sy'n dioddef gan awtistiaeth ac yn darparu cymorth a gwasanaethau hygyrch i bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd | 393 City Road, Llundain, EC1V 1NG<br><br>www.nas.org.uk<br><br>Llinell gymorth 0845 070 4004 |
| Cymdeithas Genedlaethol Gofal (NCA)<br><br>Mae'n darparu mynediad hawdd i wybodaeth am y sector gofal annibynnol i aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol gofal | 45-49 Leather Lane, Llundain, EC1N 7JT<br><br>www.nca.gb.com<br><br>Ffôn 020 7831 7090 |
| Rhwydwaith Cenedlaethol Gofalwyr Teuluoedd<br><br>Rhwydwaith sy'n darparu canolbwynt i faterion sy'n effeithio ar deuluoedd lle mae oedolyn ag anabledd dysgu | Merchants House, Wapping Road, Bryste, BS1 4RW<br><br>www.familycarers.org.uk<br><br>Ffôn 0117 930 2600 |

| Sefydliad a'r hyn yw/mae'n ei wneud | Gwybodaeth i gysylltu |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth Home Farm Cyf.**<br><br>Rhwydwaith sy'n darparu cymorth a gwybodaeth i ofalwyr teuluoedd | Merchants House,<br>Wapping Road, Bryste,<br>BS1 4RW<br><br>www.hft.org.uk<br><br>Ffôn 0117 930 2600 |
| **Patient Concern**<br><br>Sefydliad sy'n ymroddedig i hybu dewis ac i roi grym i holl ddefnyddwyr y gwasanaethau iechyd. | PO Box 23732, Llundain,<br>SW5 9FY<br><br>www.patientconcern.org.uk<br><br>E-bost patientconcern@hotmail.com |
| **Cymdeithas Perthnasau a Thrigolion**<br><br>Sefydliad ar gyfer pobl hŷn sydd angen, neu sy'n byw mewn cartref gofal preswyl eu teuluoedd a'u ffrindiau sydd ar ôl. Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth drwy linell gymorth | 24 The Ivories,<br>6-18 Northampton Street,<br>Llundain, N1 2HY<br><br>www.relres.org<br><br>Llinell gymorth 020 7359 8136 |

| Sefydliad a'r hyn yw/mae'n ei wneud | Gwybodaeth i gysylltu |
|---|---|
| RESCARE<br><br>Cymdeithas genedlaethol ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau dysgu a'u teuluoedd | Steven Jackson House, 31 Buxton Road, Heaviley, Stockport, SK2 6LS<br><br>www.rescare.org.uk<br><br>Llinell gymorth 0800 032 7330 |
| Scope<br><br>Sefydliad anabledd yng Nghymru a Lloegr. Y ffocws yw pobl â pharlys yr ymennydd | 6 Market Road, Llundain, N7 9PW<br><br>www.scope.org.uk<br><br>Llinell ymateb 0808 800 3000<br><br>Ffôn 020 7619 7100 |
| Sense<br><br>Elusen sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol i bobl fyddar ddall, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'r bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Mae'n cael ei ariannu i ddatblygu deunyddiau hyfforddi sy'n delio â materion eiriolaeth ar gyfer pobl fyddar ddall | 11-13 Clifton Terrace, Finsbury Park, Llundain, N4 3SR<br><br>www.sense.org.uk<br><br>Ffôn 0845 127 0060<br><br>Ffacs 0845 127 0061<br><br>Testun 0845 127 0062 |

| Sefydliad a'r hyn yw/mae'n ei wneud | Gwybodaeth i gysylltu |
|---|---|
| **Turning Point**<br><br>Sefydliad gofal cymdeithasol blaengar y DU sy'n darparu gwasanaethau i bobl ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u heffeithio gan gamddefnydd o gyffuriau ac alcohol, problemau iechyd meddwl a'r rhai ag anabledd dysgu | Standon House,<br>21 Mansell Street,<br>Llundain E1 8AA<br><br>www.turning-point.co.uk<br><br>Ffôn 020 7841 7600 |
| **United Response**<br><br>Mae'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl ar draws Lloegr i fyw yn y gymuned | 113-123 Upper Richmond Road, Putney, Llundain, SW15 2TL<br><br>www.unitedresponse.org.uk<br><br>Ffôn 020 8246 5200<br><br>Ffacs 020 8780 9538<br><br>Minicom 020 8785 1706 |

# Rhan H: Geirfa

| | |
|---|---|
| Atwrnai | Rhywun a benodwyd yn unol â naill ai Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus sydd â hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau o fewn eu hawdurdod ar ran unigolyn ( y Rhoddwr) oedd yn creu'r Atwrneiaeth |
| Lles pennaf | Rhaid i unrhyw benderfyniadau a wnaed neu unrhyw beth a wnaed i berson nad sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau penodol fod er lles pennaf yr unigolyn. Mae lleiafswm o gamau safonol i'w dilyn wrth ddarganfod lles pennaf rhywun. Gwelir y rhain yn adran 4 y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Gweler hefyd pennod 5 y Cod Ymarfer. |
| Galluedd | Mae galluedd unigolyn (neu ddiffyg galluedd) yn cyfeirio'n benodol at y gallu i wneud penderfyniad arbennig ar yr adeg y mae'n rhaid ei wneud. |
| Cod Ymarfer | Mae'r Cod Ymarfer yn ganllaw arbennig i gefnogi'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'n egluro sut bydd y Ddeddf yn gweithredu o ddydd i ddydd ac mae'n cynnig enghreifftiau o arfer gorau i ofalwyr ac ymarferwyr. |
| Y Llys Gwarchod | Y Llys arbenigol ar gyfer materion yn ymwneud â phobl nad sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau penodol. |

| | |
|---|---|
| Dirprwy | Rhywun a benodwyd gan y Llys ag awdurdod cyfreithiol parhaus fel y rhagnodwyd gan y Llys i wneud penderfyniadau ar ran unigolyn sydd heb y gallu i wneud penderfyniadau arbennig yn unol ag Adran 16(2) y Ddeddf Galluedd Meddyliol |
| Atwrneiaeth Barhaus (EPA) | Atwrneiaeth a luniwyd yn unol â Deddf Atwrneiaeth Barhaus 1985 yn penodi Atwrnai i ddelio ag eiddo a materion ariannol Rhoddwr. Bydd EPAs presennol yn parhau i weithredu yn unol â Threfnlen 4 Deddf Galluedd Meddyliol sy'n cymryd lle'r Ddeddf EPA 1985. |
| Atwrneiaeth Arhosol (LPA) | Atwrneiaeth a luniwyd yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (gweler Adran 9(1)) yn penodi Atwrnai i wneud penderfyniadau am les personol y Rhoddwr (gan gynnwys gofal iechyd) neu i ddelio ag eiddo a materion y Rhoddwr. |
| Galluedd Meddyliol | Gweler 'Galluedd'. |

| | |
|---|---|
| Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus | Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn swyddog a sefydlwyd yn unol ag Adran 57 y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Cefnogir y Gwarcheidwad Cyhoeddus gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n arolygu Dirprwyon, yn cadw cofrestr o Ddirprwyon, LPAs ac EPAs ac sy'n ymchwilio i unrhyw gŵyn am Atwrneiod neu Ddirprwyon. Mae'r OPG yn cymryd lle Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. |
| Lles personol (cyfeirir ato hefyd fel Iechyd a Lles) | Mae penderfyniadau lles personol yn rhai am ofal iechyd unigolyn, lle mae'n byw, pa ddillad mae'n eu gwisgo, beth mae'n ei fwyta ac unrhyw beth sydd ei angen ar gyfer ei ofal/gofal a lles cyffredinol. Gellir penodi Twrneiod a Dirprwyon i wneud penderfyniadau am les personol ar ran unigolyn sydd heb y gallu. Mae nifer o weithrediadau gofal yn ymwneud â lles personol. |
| Eiddo a materion (cyfeirir ato hefyd fel Materion Eiddo ac Ariannol) | Mae hyn yn cynnwys unrhyw eiddo sydd ym meddiant unigolyn (fel tŷ neu fflat, gemwaith neu eiddo arall), arian mewn incwm, cynilion neu fuddsoddiadau ac unrhyw wariant. Gellir penodi Twrneiod a Dirprwyon i wneud penderfyniadau am eiddo a materion ar ran unigolyn sydd heb y gallu. |
| Gwarcheidwad Cyhoeddus | Gweler 'Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus' |

© Hawlfraint y Goron 2011